**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18 Mawrth 2013**

## DATGANIAD POLISI CYFLOGAU

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad i'r Awdurdod lunio Datganiad Polisi Cyflogau yn flynyddol dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

2 Ceisio cymeradwyaeth i'r Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2013-14. Ni wnaed unrhyw newid i Ddatganiad 2012-13.

## Gwybodaeth

3 Rhaid i Ddatganiadau Polisi Cyflogau gael eu llunio'n unol â Rhan 1; Pennod 8 o'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 – Atebolrwydd Cyflogau, a rhaid iddynt nodi polisïau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n ymwneud â:

(a) thâl ei brif swyddogion,
(b) tâl ei weithwyr sy'n cael y cyflogau isaf, a'r
(c) berthynas rhwng:
    (i) thâl ei brif swyddogion, a
    (ii) thâl ei weithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

4 Rhaid i'r datganiad nodi'r:

(a) diffiniad o'r "gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf" a fabwysiedir gan yr Awdurdod i ddiben y datganiad, a
(b) rhesymau'r Awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw.

5 Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys polisïau'r Awdurdod sy'n ymwneud â:

(i) lefel ac elfennau'r tâl ar gyfer pob prif swyddog;
(ii) tâl prif swyddogion wrth gael eu recriwtio;
(iii) codiadau ac ychwanegiadau i'r taliadau ar gyfer pob prif swyddog;
(iv) y defnydd o gyflog yn gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer prif swyddogion;
(v) y defnydd o fonysau ar gyfer prif swyddogion;
(vi) y ffordd o drin taliadau i brif swyddogion pan fyddant yn darfod swydd dan yr awdurdod neu eu cyflogaeth dan yr awdurdod yn dod i ben;
(vii) cyhoeddi a mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â thalu prif swyddogion.

**Argymhelliad**

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, sef 2013/14.

**DATGANIAD POLISI CYFLOGAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**2013/14**

## 1.0 Cyflwyniad

Caiff y Datganiad Polisi Cyflogau ei lunio yn unol ag Adran 1; Pennod 8 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 – Atebolrwydd Cyflogau. Mae'n nodi polisïau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y tâl i'w brif swyddogion, y tâl i'w weithwyr sy'n cael y cyflogau isaf, a'r berthynas rhwng y tâl i'w brif swyddogion a'i weithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

Mae'r prif swyddogion a ddiffinnir dan y Ddeddf i ddibenion y Datganiad hwn yn cynnwys Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (y Prif Swyddog Tân) a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân.

Mae gweithwyr yr Awdurdod sy'n cael y cyflogau isaf wedi eu diffinio fel y rhai sy'n cael eu talu ar Bwynt 1 i 4 o Feingefn Cyflogau Strwythur Cyflogau a Graddio'r Awdurdod ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Mabwysiadwyd y diffiniad hwn i gyd-fynd â'r modd y mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn cydnabod gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf o fewn y meingefnau cyflogau cenedlaethol.

## 2.0 Polisi Taliadau Prif Swyddogion

Mae polisi cyflogau'r Awdurdod ar dalu prif swyddogion yn cyd-fynd â'r dull dau-drywydd ar gyfer pennu lefelau cyflogau rôl Rheolwr Brigâd fel y rhagnodir gan y Cyd-Gyngor ar gyfer Rheolwr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub. Caiff cyflog Rheolwr Brigâd ei adolygu bob blwyddyn ar lefel genedlaethol, ac mae'n darparu isafswm cyflog ar gyfer Prif Swyddogion Tân.

Mae'r lefel briodol ar gyfer talu'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei phennu ar lefel leol trwy adolygiad cyflogau bob tair blynedd, sy'n meincnodi cyflog y prif swyddog yn erbyn cymaryddion mewn gwasanaethau tân ac achub eraill a'r farchnad gyflogaeth yn ehangach.

Wrth gael eu penodi, bydd tâl prif swyddogion ar y cyflog sylfaenol ar bwynt unigol sy'n cysylltiedig â'r farchnad sy'n gyffredin ar adeg penodi. Hefyd, darperir car er mwyn cyflawni'r swydd. Nid yw'r Awdurdod yn talu bonysau, nac ychwanegiadau megis cyflog yn seiliedig ar berfformiad. Wrth ddarfod eu dyletswyddau'n wirfoddol, ni wneud unrhyw daliadau ychwanegol.

Bydd prif swyddogion y gellir eu hailgyflogi wedi iddynt ymddeol yn wirfoddol yn gweld eu taliadau pensiwn yn cael eu lleihau yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar Ailgyflogi Diffoddwyr Tân sydd wedi Ymddeol.

Bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi enillion y prif swyddogion, enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad, a'r gymhareb rhwng y ddau ffigwr hwn yn eu datganiad ariannol blynyddol i ddangos y berthynas rhwng y taliadau i'r prif swyddogion a'r gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

Caiff gwybodaeth ar daliadau i'r prif swyddogion fel rhan o ddatganiad ariannol diwedd blwyddyn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 3.0 Polisi Taliadau i Weithwyr nad ydynt yn Brif Swyddogion

Bydd polisi cyflogau'r Awdurdod ar dalu gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion, gan gynnwys gweithwyr yr Awdurdod sy'n cael y cyflogau isaf, yn cysoni taliadau gyda'r cyfraddau cyflogau perthnasol y cytunir arnynt gan y Cyd-Gyngor ac a negodir bob blwyddyn yn genedlaethol.

Mae pob swydd a amodir i'r Cyd-Gyngor ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn agored i gynllun Gwerthuso Swyddi'r Awdurdod, sy'n asesu'n wrthrychol bob rôl pan gaiff swydd newydd ei chreu, newidiadau i swyddi presennol neu ar adegau rheolaidd, a hynny er mwyn pennu graddfa cyflogau deg y mae modd ei chymharu ar draws y grŵp hwn o staff. Pan ddaw eu dyletswyddau i ben, ni chaiff taliadau ychwanegol eu gwneud.

Gall gweithwyr a amodir i'r Cyd-Gyngor ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod, gael hawl i well pensiwn a/neu daliadau cyflog pan fo'r Awdurdod yn rhoi cychwyn ar derfynu cyflogaeth yn gynnar mewn perthynas â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth 1997 (fel y'u diwygwyd) a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Cymru a Lloegr) (fel y'u diwygwyd) – y cyfeirir atynt fel arfer fel y Rheoliadau Iawndal yn ôl Disgresiwn.

## 4.0 Darpariaethau Atodol

Cytunir ar y datganiad polisi cyflogau hwn cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, ond ni ellir ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn i ymgorffori newid i'r amodau y cytunwyd arnynt.